

Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

Cyflwyniad i'r Cyfarfod Blyneddol

Roedd 2020 yn flwyddyn unigryw i Nant Gwrtheyrn, fel i bawb arall, oherwydd Covid-19.

O ddiwedd 2020 ymlaen, bu'r safle ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac eithrio pan laciwyd ar y cyfyngiadau ar gyfer misoedd yr haf.

O'r herwydd effeithiwyd yn ddirfawr ar berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r cyfrifon yn dangos hynny yn y golled am y flwyddyn o £151,886, o'i gymharu a'r gwarged o £232,534 a gafwyd yn 2019.

Er hynny, gallwn ymfalchïo fod y sefyllfa yn llai tywyll, a'r golled yn llai, nag y gallai fod wedi bod. Roedd nifer o ffactorau yn gyfrifol am hynny.

Sicrhodd cynllun Seibiant Llywodraeth y DU fod modd gwarchod swyddi'r mwyafrif llethol o'r staff. Aed ati i adnabod y swyddi hynny fyddai angen parhau i weithredu drwy'r cyfnod, gyda rhai'n dychwelyd yn rhan amser am gyfnodau, a chofrestrwyd mwyafrif y gweddill ar y cynllun hwn.

Bu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn gefnogol iawn i ymdrechion ein hadran Addysg i addasu'n gyflym iawn i ddarparu gwersi arlein, yn hytrach na wyneb-yn-wyneb. Arbrofwyd gyda dulliau dysgu a bydd y profiad hwn yn berthnasol a gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Llwyddwyd i sicrhau parhad cyfran sylweddol o'r arian grant disgwylidig.

Cyflwynwyd ceisiadau am grantiau Covid ar gyfer busnesau a chyrrff eraill lle roeddent ar gael, a chyfrannodd pob un o'r rhain at ostwng y golled anochel yn sgil cau'r caffi a chanslo pob priodas a chynhadledd. Cafwyd trafodaethau aeddfed gyda'r rhai oedd wedi gwneud trefniadau i ddod atom a bu'n bosibl cytuno ar ddyddiadau newydd yn 2021 a 2022 ar gyfer y mwyafrif.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd gwerthiant dau ddarn o dir ar Ynys Môn a gafwyd yn rhodd yn 2007 gan Ms Heulwen Richards. Roedd amgylchiadau penodol y ddau leoliad wedi creu cryn rwystrau yn flaenorol ar gyfer eu gwerthu, ond trwy ddyfalbarhad daethpwyd i ben â'r gwerthiannau gan olygu fod ein cronfa-wrth-gefn ar gyfer argyfwng yn cael ei gryfhau ar yr union adeg yr oedd ei angen. Hoffai'r Ymddiriedolaeth gofnodi unwaith eto ei diolch didwyll i Ms Richards am ei haelioni.

Felly hefyd ei diolch i Mair Saunders, y Prif Reolwr, a'r tim bach fu'n cario'r baich trwm o sicrhau trefniadau priodol ar gyfer gwarchod, cynnal a datblygu'r safle, delio â chwsmeriaid dros y ffôn a'r we, cyflwyno'r ceisiadau am gymorth a pharatoi ar gyfer ail-agor a chau yn ôl y rheolau.

Gwelwyd ail-agor rhannol o fis Ebrill eleni ymlaen ond bu'r angen i gydymffurfio â rheolau Covid, â rheiny'n newid o gyfnod i gyfnod, tra'n ymateb i obeithion a gofynion cwsmeriaid, yn enwedig wrth geisio cynllunio priodasau, yn dasg enfawr i Mair a'r staff. Ar y funud, disgwyliwn y cyhoeddiad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, yng nghyd-destun disgwyliadau newydd am 'ryddid' sydd wedi eu creu gan gyhoeddiadau Llywodraeth y DU.

Er hynny, mae gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys rhai cyrsiau iaith ac ymweliadau gan grwpiau, wedi ail-gychwyn, ac ail-agorwyd y caffi ar gyfer yr ymwelwyr dyddiol niferus sydd o gwmpas, gyda pharch angenrheidiol at y Covid a'r canllawiau synhwyrol sy'n dal i fod angen eu gweithredu. Gan fod y prif gyrsiau iaith yn dal i gael eu cynnal arlein, mae yna dipyn go lew o stafelloedd gwag gennym yr haf hwn, felly penderfynwyd atgoffa pobl o bob rhan o Gymru am bosibiliadau'r Nant fel lle i dreulio gwyliau ynddo, trwy ymgrych hysbysebu ar S4C. Mae'r canlyniadau'n addawol.

Rhoddodd y cyfnod clo gyfle i fwrw ymlaen â rhai cynlluniau oedd yn yr arfaeth. Mae tŷ Caerffili wedi ei ail-wampio'n llwyr i greu lle teilwng ar gyfer pob priodasferch ddaw i'r Nant i ddathlu ei diwrnod mawr, ac mae'r tŷ drws nesaf, sef Nantyffynnon, hefyd wedi cael ei drawsnewid yn fewnol i roi syniad o'r math o ddiwyg, adnoddau, a defnydd o ofod, a all gael ei gyflwyno i'r tai eraill os bydd cyllid yn caniatáu, ac o gofio fod yna 12 mlynedd wedi mynd heibio ers yr ail-adeiladu mawr diwethaf.

Mae system wresogi newydd wedi ei osod ar gyfer rhes Trem-y-Môr. Fel o'r blaen mae hwn yn system pwmp gwres ffynhonell awyr ond mae bellach yn sicrhau llif cyson o ddŵr poeth a gwres yn ôl gofynion y preswylwyr.

Fe fydd yna atyniadau newydd hefyd ar y safle – yn bennaf yr Hen Feddygfa o Lithfaen lle bydd yn bosib gweld Dr Carl Clowes ar fideo yn adrodd ei hanes o drin cleifion yno yn y 70au, a sut y ganwyd yno'r syniad o drawsnewid Nant Gwrtheyrn yn Ganolfan Iaith. Fe fydd llais yr actor enwog Rhys Ifans i'w glywed ar gyflwyniad newydd ar hanes y Nant fydd i'w weld yn y Ganolfan Dreftadaeth. Byddwn yn ad-drefnu rhywfaint ar gyntedd y capel ac fe fydd yna gyflwyniad newydd yno ar sgrin ddigidol yn amlinellu hanes yr iaith Gymraeg.

Mae yna un newid arall fydd yn wynebu'r rheiny sydd heb ymweld â'r Nant ers peth amser. Wedi blynyddoedd o ganiatau defnydd di-dâl o'r lôn ac o'r maes parcio, hyd yn oed gan y rhai nad ydynt yn ymweld â'r caffi neu yn lletya, penderfynwyd codi tâl am barcio. Trefniant syml iawn sydd yna, yn dibynnu ar barodrydd pobl i ymateb yn anrhydeddus i gais i roi £2 mewn bocs am hyd at ddiwrnod o barcio. Da dweud bod y mwyafrif yn gweld hyn yn fargen dda iawn, ac mae'r hyn sy'n cael ei gasglu yn fwy na'r disgwyl.

Gair mawr o ddiolch wrth gloi i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth am eu gwaith a'u cefnogaeth ar hyd y flwyddyn. Maent oll yn cyfrannu'n hael o'u hamser a'u harbenigedd a hynny'n ddi-dâl, er mwyn gwneud yn siwr bod y Nant – y lleoliad a'r gweithdrefnau – yn y cyflwr gorau posibl i wynebu heriau'r dyfodol.

Mae'n fwy anodd nag erioed rhagweld beth yn union fydd hanes y flwyddyn rydym ynddi yn awr. Eisoedd collwyd traean ohoni, ond o gymryd na fydd tonnau ychwanegol gormodol o'r pandemig yn dod ar ein traws, rydym yn weddol hyderus y bydd yr awydd i ddod at ein gilydd, i fwynhau harddwch naturiol y Nant, i ddysgu'r iaith Gymraeg gydag athrawon ymroddedig, i gyd-ddathlu a chyd-drafod, oll yn golygu y bydd yna alw mawr am adnoddau a nodweddion unigryw Nant Gwrtheyrn unwaith yn rhagor.

Huw Jones

Cadeirydd

9fed Gorffennaf 2021